Prifysgolion Cymru Universities Wales

# Dogfen Briffio: Effaith polisi mewnfudo'r DU ar brifysgolion Cymru

Ebrill 2024

## 1. Ymchwilwyr rhyngwladol sy'n gweithio ym mhrifysgolion Cymru

Yn ôl data HESA ar gyfer 2022/23, mae 15.5% o weithlu prifysgolion Cymru yn dod o dramor.

Mae'r gallu i recriwtio a chadw academyddion dawnus o bob rhan o'r sector ymchwil ac arloesedd rhyngwladol yn hanfodol i sicrhau bod Cymru'n parhau i arwain y ffordd o ran ymchwil ac yn parhau i fod yn gystadleuol yn fyd-eang. Ni all hyn ddigwydd os ydym wedi ein hynysu – er mwyn bod yn flaengar ar lefel fyd-eang, rhaid i brifysgolion Cymru weithredu mewn amgylchedd talent byd-eang, gan ddenu'r ymchwilwyr mwyaf disglair a dawnus o bob rhan o'r byd. Heb gyfraniad academyddion rhyngwladol, byddai ein gweithgarwch ymchwil ac arloesedd ar draws prifysgolion Cymru yn cael ei lesteirio'n sylweddol.

Yn asesiad diweddaraf y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, REF 2021, roedd Prifysgolion Cymru o flaen gweddill y DU o ran cyfran yr ymchwil yr ystyrir ei heffaith yn rhyngwladol ragorol neu'n arwain y byd, gydag 89% o ymchwil Cymru'n derbyn 3 neu 4 seren.

Yn ôl data REF, mae prifysgolion Cymru'n gartref i 3.9% o ymchwilwyr y DU, er bod 4.7% o boblogaeth y DU yn byw yng Nghymru. Yn seiliedig ar ein maint cymharol, mae gan Gymru gyfran is o ymchwilwyr na'r DU ehangach, sy'n golygu ei bod yn bwysicach fyth ein bod yn gallu denu talent ac arbenigedd o bartneriaid rhyngwladol i gryfhau ein sylfaen ymchwil.

## 2. Effaith newidiadau i system fewnfudo'r DU

Gallai newidiadau i'r system fewnfudo, gan gynnwys y cynnydd yn y trothwy cyflog cyffredinol, a'r adolygiad o'r Llwybr Graddedigion, gael effaith sylweddol ar allu prifysgolion Cymru i recriwtio myfyrwyr ac academyddion rhyngwladol.


Mae prifysgolion ledled y DU (gan gynnwys Cymru) eisoes yn adrodd am ostyngiad sylweddol mewn recriwtio rhyngwladol. Mae data'n dangos bod ansicrwydd ynghylch cyfleoedd gwaith ôl-astudio'n ffactor pwysig pan fo myfyrwyr rhyngwladol yn gwneud penderfyniadau, tra bod arolwg diweddar a gynhaliwyd gan UUK yn awgrymu bod niferoedd myfyrwyr rhyngwladol bellach yn gostwng, yn dilyn uchafbwynt yn 2022/23. Mae'r canlyniadau, o fwy na 70 o brifysgolion, yn datgelu gostyngiad sylweddol yn nifer y rhai sy'n ymrestru, yn enwedig myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir – nodwyd bod eu niferoedd wedi gostwng mwy na 40% ym mis Ionawr 2024.

Ategir y darlun hwn gan y data diweddaraf gan *Enroly*, platfform a ddefnyddir gan tua 60 o brifysgolion. Mae'n awgrymu bod y galw gan fyfyrwyr rhyngwladol am le yn y DU yn sylweddol is nag yn 2023, gyda blaen-daliadau cyffredinol fwy na thraean yn is na'r adeg hon y llynedd.


Mae'r Llwybr Graddedigion wedi galluogi prifysgolion i amrywio eu poblogaeth myfyrwyr yn sylweddol.

Fel y mae'r siart isod (Ffigur 1) yn ei ddangos, bydd effaith unrhyw newidiadau i'r Llwybr Graddedigion yn cael ei gynyddu yng Nghymru, gan nad yw twf myfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru wedi cyfateb i un y DU, gan aros yn ei unfan ar ôl dileu'r fisa Gweithio Ôl-Astudio yn 2012 cyn cynyddu eto yn fwy diweddar.

*Ffigur 1: Ymrestriadau myfyrwyr rhyngwladol fel % o ymrestriadau addysg uwch yng Nghymru a Lloegr*




*Ffynhonnell: HESA*



Mae'r tabl isod (Ffigur 2) yn dangos adferiad mewn recriwtio o wledydd y tu allan i'r UE, yn enwedig o Affrica ac Asia, ers cyflwyno'r Llwybr Graddedigion yn 2021. Roedd ymrestriadau wedi gostwng ar ôl i'r fisa gweithio ôl-astudio gael ei ddiddymu yn 2012.

*Ffigwr 2. Newidiadau mewn ymrestriadau yng Nghymru*

| **Yn wreiddiol** | **2007/08** | **2008/09** | **2009/10** | **2010/11** | **2011/12** | **2012/13** | **2013/14** | **2014/15** | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Affrica | 1,705 | 2,025 | 2,340 | 2,420 | 2,485 | 2,535 | 2,885 | 2,890 | 2,515 | 1,705 | 1,285 | 1,110 | 1,270 | 1,730 | 3,185 |
| Asia | 7,335 | 8,680 | 11,150 | 13,535 | 12,660 | 12,040 | 12,635 | 11,210 | 9,670 | 9,050 | 9,410 | 9,870 | 11,230 | 11,020 | 13,935 |
| Awstralasia | 70 | 80 | 90 | 70 | 75 | 80 | 105 | 90 | 85 | 65 | 55 | 65 | 70 | 75 | 75 |
| Dwyrain Canol | 965 | 1,170 | 1,685 | 1,895 | 1,970 | 2,190 | 2,435 | 2,655 | 2,765 | 2,550 | 2,375 | 2,095 | 2,090 | 1,955 | 2,045 |
| Gogledd America | 760 | 830 | 845 | 830 | 880 | 955 | 865 | 955 | 860 | 860 | 955 | 805 | 855 | 785 | 1,095 |
| Anhysbys | 860 | 540 | 370 | 125 | 170 | 55 | 15 | 25 | 5 | 0 | 0 | 0 | 5 | 0 | 10 |
| De America | 160 | 255 | 365 | 340 | 235 | 180 | 195 | 220 | 135 | 125 | 110 | 105 | 100 | 75 | 75 |
| **Cynfanswm** | **11,855** | **13,580** | **16,845** | **19,215** | **18,475** | **18,035** | **19,135** | **18,045** | **16,035** | **14,355** | **14,190** | **14,050** | **15,620** | **15,640** | **20,420** |

*Ffynhonnell: HESA*

Mae'r newid yn y **trothwy cyflog** ar y Llwybr Gweithiwr Medrus (£38,700 erbyn hyn) hefyd yn cael effaith anghymesur yng Nghymru, lle mae cyflog cychwynnol cyfartalog graddedigion yn ~£25,000. At hynny, yn 2020, llofnododd Prifysgolion Cymru bapur safbwynt ar y cyd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, a awgrymodd y dylid capio'r trothwy cyflog ar £20,000 er mwyn osgoi cyfyngu ar gyfleoedd i raddedigion mewn rhai rhannau o Gymru. Mae £38,700 yn waharddol iawn o gymharu.

## 3. Rôl barhaus mudo rhyngwladol

Mae mudo rhyngwladol myfyrwyr ac academyddion eisoes yn rhan hanfodol o'r sector addysg uwch ac ymchwil yng Nghymru. Mae'n sicrhau bod gan Gymru rôl ar lwyfan y byd, ac yn cyfrannu at ein pŵer meddal.

Mae cydweithredu rhyngwladol ar draws gweithgarwch ymchwil ac arloesedd yn hanfodol i sicrhau bod prifysgolion Cymru'n parhau i fod yn gystadleuol yn fyd-eang. Mae cyfranogiad y DU yn *Horizon Europe* yn galluogi cydweithio ag academyddion o'r radd flaenaf sydd wedi'u lleoli ar draws Ewrop.

Dangosodd ymarfer diweddaraf REF effaith ymchwil a gynhaliwyd ym mhrifysgolion Cymru gydag academyddion a phartneriaid rhyngwladol, gan gynnwys deall goblygiadau deallusrwydd artiffisial emosiynol, arloesi mewn ffyrdd newydd o fynd i'r afael â halogiad bacteriol, a datblygu camera ysgafn iawn i'w ddefnyddio ar uchelderau. Mae economi a chymdeithas Cymru'n cael budd sylweddol o weithgarwch ymchwil a gynhelir gan brifysgolion Cymru. Mae prifysgolion yng Nghymru'n cynhyrchu £5bn o allbwn ar gyfer economi Cymru bob blwyddyn.

Yn ogystal â hyn, mewn amgylchiadau economaidd sy'n gynyddol heriol, mae prifysgolion yn dibynnu ar incwm gan fyfyrwyr rhyngwladol i gynnal addysgu ar gyfer myfyrwyr domestig (mae chwyddiant yn golygu nad yw'r ffi ddomestig bellach yn talu cost addysgu) ac i wneud y gwaith o gyflawni prosiectau ymchwil ac arloesedd yn ymarferol.

Mae prifysgolion yn sylfaenol i gynhyrchiant economaidd Cymru yn y dyfodol. Bydd angen mwy na 400,000 o raddedigion ychwanegol yng Nghymru erbyn 2035 er mwyn ymateb i

fylchau sgiliau a heriau gweithlu'r dyfodol, yn ôl canfyddiadau adroddiad gan UUK. Erbyn 2035, bydd 95% o *swyddi newydd* yng Nghymru ar lefel raddedig, gyda disgwyl i 88% o swyddi'r DU i fod ar lefel raddedig. Gan fod prifysgolion Cymru ar hyn o bryd yn darparu tua 40,000 o raddedigion bob blwyddyn, ac yn cyfrif am bron i dri chwarter gweithlu graddedigion y DU yng Nghymru, mae hyn yn golygu cynyddu nifer y graddedigion o brifysgolion Cymru yn sylweddol iawn. Bydd gan fewnfudo ran allweddol i'w chwarae wrth lenwi swyddi gweigion o ganlyniad i brinder sgiliau.

### 4. Effaith Brexit

Mae Brexit wedi effeithio ar recriwtio dinasyddion yr UE i weithio yn ein sector addysg uwch ac ymchwil mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys ychwanegu at lwyth gwaith staff AD sy'n prosesu gofynion mewnfudo ar gyfer ystod ehangach o weithwyr. Mae costau sylweddol hefyd yn gysylltiedig â mudo i'r DU, gan gynnwys cost fisas a gordal y GIG, sydd bellach yn daladwy gan ddinasyddion yr UE.

Yn y tymor hwy, bydd rhaid ystyried pa mor ddeniadol yw'r DU fel cyrchfan ar gyfer gyrfa academaidd pan fyddwn y tu allan i'r UE. Am y tro, mae ein cysylltiad â *Horizon Europe* yn gadarnhaol, a hoffem weld Llywodraeth y DU yn nodi ei bwriad i ymuno â FP10.

### 5. Hyrwyddo Cymru dramor

Mae rhaglen Cymru Fyd-eang yn bartneriaeth rhwng Prifysgolion Cymru, ColegauCymru, Llywodraeth Cymru, y Cyngor Prydeinig yng Nghymru, a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae'r rhaglen yn darparu dull strategol a chydweithredol o ymdrin ag addysg uwch ac addysg bellach ryngwladol yng Nghymru. Mae ei hamcanion yn cynnwys cynyddu ymwybyddiaeth ac enw da prifysgolion a cholegau addysg bellach Cymru mewn marchnadoedd blaenoriaeth, ynghyd â chynyddu nifer y myfyrwyr o'r marchnadoedd hynny a chynnal a thyfu partneriaethau. Y marchnadoedd blaenoriaeth yw Gogledd America, India a Fietnam. Ariennir y rhaglen hyd at ddiwedd Gorffennaf 2025.

Fel rhan o raglen Cymru Fyd-eang, mae partneriaeth brand Astudio yng Nghymru yn gweithio ar y cyd â *Study UK* i hyrwyddo Cymru fel lle i astudio.